CYMDEITHAS BOB OWEN

# Y Casglwr

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd*

**Cymdeithas Bob Owen**

*Tâl aelodaeth*
*£3 y flwyddyn i'r Ysgrifennydd.*

**SWYDDOGION**

*Cadeirydd:*
*D. Tecwyn Lloyd*
*Ysgrifennydd:*
*Richard H. Lewis*
*40 Maes Ceiro*
*Bow Street, Dyfed*
*(Aberystwyth 828102)*
*Trysorydd a Threfnydd Busnes:*
*Anne Till*
*26 Maes Ceiro*
*Bow Street, Dyfed*
*(Aberystwyth 820235)*
*Golygydd:*
*John Roberts Williams*
*18 Minffordd, Llanrug, Caernarfon*
*(Caernarfon 3593)*

**Cyhoeddir Y Casglwr**
**Gyda chymorth ariannol**
**Cyngor Celfyddydau Cymru.**

## RHIF YOUNG

TRWY wall argraffu aeth rhif teleffon R. G. a J. E. Young i'w hysbyseb llyfrau ail-law yn anghywir yn y rhifyn diwethaf o'r *Casglwr*. Creodd hyn beth trafferth a dryswch ac mae'n ddrwg gennym am hynny. Ond mae'r rhif yn ei ôl yn berffaith gywir ar dudalen 4, os edrychwch.

## AR WERTH

*R. J. Thomas:* Enwau Afonydd a Nentydd Cymru. *Caerdydd, Gwasg Prifysgol Cymru, 1938. £32.50*

*Edward Davies:* Hanes Porthmadog. *Caernarfon, 1913. £8.50.*

*D. T. Davies:* Hanes Eglwysi a Phlwyfi Lleyn. *Pwllheli, 1910. £15.50.*

*Bethan Phillips:* History of Peterwell (Lampeter). *Llandysul, Gwasg Gomer, 1983. Llofnodwyd gan yr awdur. £15.00.*

*Gwynfor Evans:* Aros Mae. *Ail argraffiad. £4.00.*

*W. H. Howse:* Radnorshire. Henffordd, E. J. Thurston, 1949. Mewn siaced lwch. *£37.50.*

**J. M. Jones, Brynawelon, Swyddffynnon, Ystrad Meurig, Dyfed SY25 6AL.**

# A phwy oedd y John Hughes yma?

## E. WYN JAMES yn ateb

YN RHIFYN diwethaf *Y Casglwr* (Awst 1991), t.2, y mae Dr D. Tecwyn Lloyd yn holi pwy oedd John Hughes, Aberbechan, plwyf Meifod, sir Drefaldwyn, awdur *Caniadau Efengylaidd i Blant* (1826). Ni cheir sôn amdano yn *Y Bywgraffiadur Cymreig* nac unrhyw fywgraffiadur arall, meddai Dr Lloyd; ac ni chynhwysir dim o'i waith yn ein casgliadau emynau cyfoes hyd y gŵyr Dr Lloyd.

Ond y *mae* cofnod arno yn *Y Bywgraffiadur*, oherwydd ef yw'r 'John Hughes (1775-1854)' y ceir cofnod arno ar dudalen 359. A phan ddywedaf mai 'John Hughes, Pontrobert' yw'r enw arferol ar awdur y casgliad, fe fydd Dr Lloyd yn gwybod yn iawn amdano fel cyfaill a chofiannydd Ann Griffiths ac fel awdur emynau adnabyddus megis 'O! anfon Di yr Ysbryd Glân' ac 'O! deffro, deffro, gwisg dy nerth'.

Ganed John Hughes ym mhlwyf Llanfihangel-yng-Ngwynfa, ac er iddo grwydro'n eang ar ei deithiau pregethu mynych fel gweinidog Methodist (a threulio cyfnodau hefyd yng ngorllewin Maldwyn fel athro ysgolion cylchynol cyn iddo briodi), yng nghyffiniau'r plwyf hwnnw y bu ei gartref ar hyd ei oes faith.

Bu'n briod â Ruth Evans, morwyn Dolwar-fach, o 1905 hyd ei farw yn 1854. Cawsant sawl cartref ym mlynyddoedd cynnar eu bywyd priodasol, ond erbyn 1811 yr oeddynt wedi ymsefydlu yn nhŷ capel y Methodistiaid Calfinaidd ym Mhontrobert ym mhlwyf Meifod, ac yno y treuliodd ef a Ruth weddill eu bywydau.

* * * *

CYHOEDDODD John Hughes dros ugain o lyfrau a llyfrynnau yn ystod ei fywyd hir. Cyfrannodd yn gyson i gylchgronau ei enwad yn ogystal. Gwnâi hynny weithiau dan ffugenw, yn enwedig yn y cyfnod rhwng tua 1819 a 1826.

Mewn cylchgronau ym Mawrth a Mai 1824, er enghraifft, defnyddia'r ffugenw 'Glan Efyrnwy', sef yr afon a red trwy bentref Pontrobert. Ym Mawrth a Mehefin 1825, fe'i ceir yn defnyddio'r ffugenwau 'Glan Aberbechan' a 'B__Dd (= Bardd?), Aberbechan'. Ac yna, ar wyneb-ddalen *Caniadau Efengylaidd i Blant* (1826), fe'i disgrifir fel 'John Hughes, Aberbechan, Plwyf Myfod, Sir Drefaldwyn'.

Rhed nant fechan heibio i dŷ capel Pontrobert. Ni wn beth yw ei henw, ond tybed ai cyfeiriad at y nant honno sydd yma?

Fel y noda Dr Lloyd, y mae cyfrol 1826 yn syrthio'n ddwy ran. 'Caniadau Efengylaidd i Blant' yw'r rhan gyntaf, sef un o sawl ymgais yn hanner cynta'r ganrif ddiwethaf i roi gwisg Gymraeg i gyfrol arloesol Isaac Watts, *Divine songs attempted in easy language, for the use of children.*

Mae ail ran y gyfrol, 'Hymnau Athrawiaethol ac Ymarferol', yn argraffiad newydd o gyfrol a gyhoeddwyd gyntaf yn 1821 — gyda chaniatâd ac anogaeth Sasiwn Llanrwst, Rhagfyr 1820 — dan y teitl *Hymnau i'w Canu yn yr Ysgolion Sabbothol.*

Fel yn achos cyfrol 1826, gwasg Saunderson, Y Bala, a'i hargraffodd. Cyhoeddwyd argraffiad arall, *Hymnau i'w Canu yn yr Ysgolion Sabbothol*, yn 1863, rai blynyddoedd wedi marw John Hughes, o wasg Owen Rees, Dolgellau. 'Pigion' o gyfrol 1826 yw'r gyfrol *Pigion o Hymnau*, a argraffwyd gan Robert Jones yn Llanfair Caereinion, rywbryd rhwng 1827 a 1835 yn ôl pob tebyg.

# Cofio Prifwyl Corwen

## Gan E. LLOYD JONES

'YDI'R 'Steddfod Genedlaethol ddim fel y buo hi,' dyna gwestiwn neu ddatganiad pendant yn rhifyn Awst o'r *Casglwr* ac o ddarllen yr erthygl daeth pwl o hiraeth i mi am y brifwyl a fu yng Nghorwen yn Awst 1919. Gwn fod yr iaith fain wedi cael sylw llawer mwy na'i haeddiant yn y gweithrediadau yno, ond er hynny credaf na buasai hynny wedi tarfu yn ormodol ar y mwynhad wrth wrando ar ganu gwefreiddiol a disgybledig y corau mawr a ddaeth yno o'r tu draw i'r clawdd.

Gallaf honni mai yng Nghorwen y cefais y fraint o fynd i'r Eisteddfod Genedlaethol am y tro cyntaf. Euthum yno efo criw o laslanciau newydd adael yr ysgol efo sgyrsion triswllt relwe y Great Western o Flaenau Ffestiniog.

Cofiaf megis pnawn ddoe i mi allan o fy ychydig sylltau brynu jwg yfed deniadol yr olwg o stondin ar y ffordd o'r stesion wedi ei oreuro efo'r geiriau *'Victory National Eisteddfod Corwen August 1919'*, a mawr wedyn oedd fy mhryder trwy'r dydd na wesgid y trysor yn fy mhoced pan oeddwn yn bustachu trwy'r deng mil a hanner ar y cae — ond cafodd ddihangfa a chael croeso mawr wedi cyrraedd adre'.

Yn naturiol cafwyd cryn siom pan glywyd erbyn y pnawn nad oedd ein Prif Weinidog yn medru bod yno. Erbyn ein dyddiau ni yn 1991 efallai na fyddai absenoldeb unrhyw gadeirydd yn ddim mwy na siomiant munud awr, ond yn yr hen amser yr oedd llwyddiant ariannol y 'Steddfod, yn y Gogledd a'r De, yn dibynnu bron yn gyfan gwbl ar bresenoldeb L.G. yn y cadeirio ddydd Iau.

Dyma'r adeg pryd yr oedd gwŷr y pocedi trymion ym mhob ardal yn gorfod gwarantu symiau ymlaen llaw pe digwyddai methiant, a hawdd bellach yw i ni chwerthin am ben aml drysorydd lleol y dyddiau a fu a'i gwnaeth bron yn fater cyfarfod gweddi na ddeuai teligram o Lundain yn ystod bore dydd Iau yr ŵyl yn gofidio na allai'r dyn mawr fod yno. Aeth llawer blwyddyn heibio cyn y cafwyd peth rhyddhad drwy fesur seneddol Peter Thomas, A.S., yn rhoi'r hawl i'r Cynghorau Sir, ac ar ôl hynny yr awdurdodau mwy lleol i gyfrannu grantiau (pwy ddeudodd nad oedd dichon cael dim da gan yr hen Doris yma?)

Y tro olaf i mi weld Lloyd George yn yr Eisteddfod Genedlaethol oedd yn Ninbych yn Awst 1939. Erbyn hyn 'roedd cysgodion rhyfel arall wrth y drws, y lluoedd arfog yn ymwregysu am yr wŷs i'r gad, a'r gweddill ohonom o dan yr hanner cant oed wedi ein rhybuddio y gallem gael cyffelyb alwad yn ddisymwth — ac fe ddaeth yn ei amser.

Roedd araith sobr y gŵr gwadd yn gweddu i'r achlysur, a gan nad oedd neb o'r beirdd yn deilwng o'r Goron y dydd Mawrth, na'r Gadair y pnawn dydd Iau hwnnw gellir dychmygu adwaith y dorf.

P'run bynnag cafodd llond y pafiliwn, a rhai cannoedd ar y maes tu allan, hwyl a gollyngdod ar y diwedd pan darodd rhywun emyn mawr Moelwyn, 'Pwy a'm dwg i'r ddinas gadarn?' ar yr organ, a L.G. yn arwain o'r llwyfan.

Ond, i ateb y cwestiwn — ydi'r hen 'Steddfod ddim fel y buo hi, wrth gwrs mae'n rhaid cydnabod y bu newid a bod y 'Rheol Gymraeg' wedi ei hen gyfreithloni. Parhaed felly.

Cibyn, Caernarfon, Gwynedd
Ffôn: Caernarfon (0286) 4486
Gwasg Gwynedd
ARGRAFFWYR A CHYHOEDDWYR